



## Ar ei Liwt ei Hun – Ymchwiliadau Estynedig – Ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd

### Cyflwyniad

Mae'r Ombwdsmon yn gallu cynnal dau fath o ymchwiliad ar ei liwt ei hun:

- Estyniad i ymchwiliad presennol i'ch cwyn: neu
- Ymchwiliad ehangach annibynnol nad yw'n ymwneud ag unigolyn penodol neu gŵyn a gafwyd

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio sut gall yr Ombwdsmon ddefnyddio ei bwerau estynedig i gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun estynedig ar y dudalen '[Ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun](#)', o dan y tab 'Amdanom ni'.

### Beth all yr Ombwdsmon ei wneud

Mae [meini prawf](#) (ar gael ar y dudalen '[Ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun](#)', o dan y tab 'Amdanom ni') yr Ombwdsmon ar gyfer ymestyn ymchwiliad yn dweud, os ydy Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad i gŵyn yn barod, a'i fod yn dymuno cychwyn ymchwiliad ar ei liwt ei hun i faterion sydd â chysylltiad sylweddol â'r mater sydd eisoes yn cael ei ymchwilio, bydd yn dechrau ymchwiliad estynedig ar ei liwt ei hun.

Gellir cynnal ymchwiliad estynedig os oes gan yr Ombwdsmon amheuaeth resymol bod cwyn am:

- Un elfen o wasanaeth, a/neu
- Un darparwr gwasanaeth

Gyda chysylltiad agos â:

- Achos posibl arall o gamweinyddu systemig (eang) neu o fethiant gwasanaeth, a/neu
- Darparwr gwasanaeth cysylltiedig arall

A:

- Mewn achos iechyd neu ofal cymdeithasol – bod anghyfiawnder systematig wedi bodoli o ganlyniad i'r crebwyll proffesiynol a ddefnyddiwyd yn yr achos hwnnw
- Rhaid bod dechrau ymchwiliad ym mudd y cyhoedd.

Dyma rai enghreifftiau o faterion a allai fod yn destun ymchwiliad estynedig:

- methiant neu ddigwyddiad oedd ddim yn achos un tro ond sydd wedi digwydd o ganlyniad i fethiant ehangach yng ngweithdrefnau, prosesau neu systemau'r corff cyhoeddus.
- methiant yn nulliau neu weithdrefnau'r corff cyhoeddus a allai achosi anghyfiawnder i nifer o bobl.
- methiant ehangach o ran dull neu weithdrefn sydd i'w weld yn cael ei dderbyn neu ei gymeradwyo gan y corff cyhoeddus.

Mae ymchwiliadau i faterion o'r fath yn debygol o fod o 'fudd i'r cyhoedd' os ydyn nhw:

- O bryder sylweddol i'r cyhoedd a neu'n fater sydd eisoes o bryder i'r Ombwdsmon
- Yn ymwneud â chamddefnydd grym gan gorff cyhoeddus yn erbyn unigolyn
- os ydy bregusrwydd neu amgylchiadau arbennig y person sy'n gwneud y gŵyn neu grŵp o achwynwyr yn awgrymu y byddai ymyrraeth yr Ombwdsmon o fudd iddyn nhw.

Efallai y bydd yr Ombwdsmon eisiau ymestyn neu fynd ag ymchwiliad byw i gyfeiriad cysylltiedig arall gan archwilio cofnodion, cyngor proffesiynol a thystiolaeth arall sydd yn nodi pryderon y tu hwnt i'r rheini yn y gŵyn a dderbyniwyd, sy'n bodloni'r meini prawf yn ôl pob tebyg.

Os bydd yr Ombwdsmon o'r farn bod angen ymchwiliad estynedig ar ei liwt ei hun mewn perthynas â'ch cwyn, rhoddir gwybod i chi a'r corff cyhoeddus dan sylw, a bydd cyfle i chi wneud sylwadau a/neu gyflwyno tystiolaeth fel rhan o'r broses ymchwilio.

Pan fydd yr Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad estynedig, bydd yn cael ei reoli yn unol â phrosesau trin cwynion presennol yr Ombwdsmon.

## **Beth na all yr Ombwdsmon ei wneud**

- Ymestyn cwyn nad yw'n destun ymchwiliad
- Ymestyn ymchwiliad i ystyried materion na fyddai'n cwrdd ag awdurdodaeth yr Ombwdsmon o ran ymchwilio
- Ymestyn ymchwiliad sydd ddim yn diwallu meini prawf yr Ombwdsmon o ran gweithredu ar ei liwt ei hun

## **Materion i'w cadw mewn cof**

Os ydy'r ymchwiliad estynedig yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a bod y rheoliadau 'Gweithio i Wella'

yn berthnasol, rhoddir cyfle i'r achwynydd fwrw ymlaen â'r mater o dan y rheoliadau hyn fel dewis arall.

## Cysylltu â ni

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch chi am ein gwasanaeth, cysylltwch â ni:

[holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:holwch@ombwdsmon.cymru)

0300 790 0203

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb.

[Holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:Holwch@ombwdsmon.cymru)

0300 790 0203 Mae ein llinell ffôn ar agor rhwng 10yb-12:30yp a 1:30yp-4yp Dydd Llun - Dydd Gwener